



Comisiwn Ffiniau  
i Gymru

Boundary Commission  
for Wales

Comisiwn Ffiniau i Gymru

# Ymgynghoriad Cynigion Diwygiedig: Cynrychiolaethau

Cyfrol 12: 10612

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]


Annwyl Mrs Fonesig Ustus Nerys Jefford,

Gobeithio eich bod chi a'ch tîm yn iawn bod gwaith yn mynd yn dda. Er bod Cymru gyfan ar gyfer ffurfio'r etholaethau ar gyfer Senedd y DU yn cael eu hystyried yn un, mewn bywyd beunyddiol ac mewn llawer o bethau mae gan Gymru ranbarthau sy'n gwahaniaethu'n fawr iawn o'i gilydd mewn llawer o ffyrdd. Mae gan Gymru lawer o wahanol setiau o ranbarthau, yn dibynnu ar yr hyn yr ydych yn ymdrin ag ef. Nid oes rhanbarthau safonol ar hyn o bryd. Bu yn y gorffennol a gall fod chwe rhanbarth- y Gogledd-orllewin, y Gogledd-ddwyrain, y Canolbarth (Cymru), y De-orllewin, Canol y De, y De-ddwyrain. Ceir rhwng pedwar a chwech fel rheol. Felly er bod yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal ar draws y wlad gyfan, efallai y byddai o gymorth cael rhanbarthau cyffredinol, ac felly rhoi mwy o gwmpas i etholaethau gynnwys tri rhanbarth efallai. Os bydd gennym dri rhanbarth, mae'r rhain yn ffurfio'n naturiol fel un i ran ogleddol y wlad, un i ran ganolog y wlad, un i ran ddeheuol y wlad. Gellid galw'r rhain yn Gogledd Cymru, Canol Cymru a De Cymru. Maent yn amrywio mewn sawl agwedd- yn ffisegol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac ati. Byddai'n dda pe na bai etholaethau'n croesi'r rhain pan fo'n bosibl. Wrth gwrs, efallai y bydd gan bobl wahanol safbwyntiau ar yr union ffiniau. Er enghraifft, a ddylai Llanelli fod yng Nghanol Cymru neu yn Ne Cymru? Yn weinyddol, byddai yng Nghanol Cymru. Yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, byddai yn Ne Cymru. O ran Meirionnydd, a ddylai fod yng Ngogledd Cymru neu yng Nghanol Cymru? Y dyddiau yma, byddai yng Ngogledd Cymru o safbwynt gweinyddol. Ond ni fu hyn yn wir yn y gorffennol. Yn hanesyddol, gyda Chanol Cymru. Mae gan ardal Meirionnydd glymau gyda'r ddau. Yn wir, mae'n dibynnu ar ba ran o Feirionnydd rydych chi ynddi, mae Gogledd Meirionnydd yng Ngogledd Cymru. Mae De Meirionnydd yng Nghanol Cymru. Gall fod yn y naill neu'r llall. Yma, bydd Meirionnydd gyda Chanol Cymru, a bydd Llanelli gyda Chanol Cymru. O ran poblogaeth, Canol Cymru yw'r lleiaf. Mae ystod etholaethau bach a chul yn golygu mai prin fydd yr etholaethau yng Nghanol Cymru ac felly mae'r uchod (rhoi'r ddau uchod yng Nghanol Cymru) yn rhoi mwy o gwmpas ac eangder i etholaethau yng Nghanol Cymru. Hyd yn oed o ffurfio Canol Cymru fel hyn, dyma'r lleiaf o'r rhanbarthau o hyd a dyma lle ceir y lleiaf o etholaethau. Felly mae'n rhaniad gwell a thecach i etholaethau. Yn sgil hyn y dosbarthiad etholaethau rhwng y rhain fyddai Gogledd Cymru 7 o etholaethau, Canol Cymru chwech o etholaethau, De Cymru 19 o etholaethau. Mae gan Dde Cymru fwy na'r ddau arall wedi'u cyfuno. Efallai y gellir ystyried un o ardaloedd De Cymru fel isranbarth- mae'n unigryw iawn mewn llawer o ffyrdd. Gallai gynnwys chwe etholaeth- yr un faint â Chanol Cymru. Y cymoedd yw hon. Mae'n eithaf unigryw mewn cynifer o ffyrdd, ac mae'r bobl yn unigryw. Yn gyffredinol, mae gan bobl yn y rhanbarthau hyn nodweddion sy'n eu gwahaniaethu ac mae hyn yn creu cysylltiad cyffredin, sy'n

bwysig wrth ffurfio etholaethau. Mae cysylltiad cyffredin rhwng etholwyr yn golygu ac yn arwain at etholaeth sy'n gweithio. Mae angen i ni fod â 32 o etholaethau sy'n gweithio. Er efallai mai'r un gwarchodedig fydd yr unig un ddelfrydol. Mae Gogledd Cymru â saith etholaeth yn golygu tair i'r rhan ogledd-orllewinol a phedair i'r rhan ogledd-ddwyreiniol. Ond gan ei fod i gyd yn un rhanbarth, mae mwy o hyblygrwydd a chwmpas ar gael. Gellir hefyd ystyried Canol Cymru â chwe etholaeth fel dwy ran, rhan ganolog a rhan de-orllewinol. Eto, fel un rhanbarth mae hyn yn creu mwy o bosibiliadau. Gellir ystyried De Cymru â 19 o etholaethau fel tair rhan. Yr ardal arfordirol rhwng Abertawe a'r Barri; ardal y gwastatir o Gaerdydd i Afon Gwy; yr ardal o ddyffrynnoedd sy'n ffurfio'r hyn a adnabyddir fel y cymoedd. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn rhoi rhywfaint o amlinell i ffurfiad etholaethau a'r mathau o etholaeth sy'n cael eu ffurfio. Wrth gwrs, ceir llawer o bosibiliadau i Gymru gyfan. Y set fwyaf addas a phriodol o 32 o etholaethau y mae angen i Gymru gael ei ffurfio ohoni nawr ar gyfer y dyfodol.

Cynigir y pedair set ganlynol o etholaethau fel posibiliadau. Ceir pedwar gwahanol opsiwn ar gyfer Gogledd Cymru a cheir dau wahanol opsiwn ar gyfer Canol Cymru. Gyda De Cymru mewn un rhan a gwahanol opsiwn-dau opsiwn. Ceir amrywiadau'n uniongyrchol, lle gall bwrdd fod mewn dwy etholaeth a cheir manteisio ac anfanteisio i'r gwahanol amrywiadau. Yn ei hanfod, ceir dau ddull o ffurfio etholaethau. Cael etholaethau, cyn belled â phosibl o bob math penodol? Cael etholaethau sy'n gymysg, sy'n ymgorffori gwahanol fathau gyda'i gilydd yn un. Efallai bod hyn fwyaf amlwg yng Ngogledd Cymru. A ydych chi'n cadw ardaloedd gwyliau arfordirol a chefn gwlad ffermio ar wahân neu gyda'i gilydd? Bydd y dull a gaiff ei fabwysiadu yn pennu'r etholaethau a ffurfir. Cael y ddwy ffurf hyn yn eu hetholaethau eu hunain? Neu eu cymysgu? Bydd rhai yn dweud yr un ffordd ac efallai y bydd eraill yn dweud y ffordd arall. Mae'r ddau yn ddilys a gallant ffurfio etholaethau da. Mae canolbarth Cymru yn brin iawn ei boblogaeth. Er nad yw etholaethau yn agos at fod yr uchafswm o ran maint. Nid yw'r un ohonynt yn cymharu â rhai o rai'r Alban. A ydych chi'n dilyn y siroedd presennol a sut mae canolbarth Cymru ar hyn o bryd? Neu a ydych chi'n dilyn trywydd siroedd hanesyddol a oedd yn bodoli dros hanner canrif yn ôl? A yw'r etholaethau i'w ffurfio ar gyfer y dyfodol fel y mae Cymru nawr neu'r ydym ni'n dweud sy'n dangos traddodiadau yn hanesyddol? A ydym ni'n cadw'r drefn weinyddol bresennol neu'n dilyn yr hen drefn weinyddol? O ran y canolbarth, ceir Powys erbyn hyn, sef ei brif sir. Beth yw'r ffordd orau o'i drin ar gyfer y dyfodol? I Dde Cymru ceir etholaethau cymoedd, etholaethau dinas, etholaethau tref. Yma mae'r gwahaniaethau mor fawr mae'n well mynd yn ôl math.

Tri Deg Dau o Etholaethau i Gymru



NOT TO SCALE

Boundaries are Approximate.

For Constituency Numbers' Key see page (4) →

Allwedd i'r Set o Dri Deg Dau o Etholaethau i Gymru

Gogledd Cymru (7)

[40+10]

1. Ynys Môn 52415 2. Arfon Conwy Dwyor 76369/74692 3. Betws-y-n-Rhos 75116/  
73439 4. Rhyl Prestatyn 70580 5. Dyfrdwy 72115 6. Wrecsam 72977 7. Glynŵr 70887

Canol Cymru (6)

8. Maldwyn Meirionnydd 77061 9. Brycheiniog Maesfedyd Dinefwr  
Powys Deheuol Caerfyddin Dwyreiniol 70590  
10. Ceredigion Teifi 76126

Alternative A.

11. Penfros 74522 12. Caerfyddin Bae 71261

Alternative B.

11. Penfros 75346 12. Caerfyddin Bae 70437

13. Llŵchwr 69941

De Cymru (19)


14. Abertawe - Mwmbwls 76232 15. Abertawe - Tawe 74715  
16. Nedd Lliw Pontardduis 69920 17. Afan Llynti Afan Maesteg 73574 18. Pen-y-bont 70245  
19. Tonyrefail Rws 69739 20. Barru Phenarth 70740  
21. Caerdydd - Castell 71106 22. Caerdydd - Llandaf 73878  
23. Caerdydd - Llanishen 73507 24. Casnewydd - Gaer Caerdydd - Llanrhymni 74015  
25. Casnewydd - Maendy 76159 26. Wysg 72681  
27. L(l)wyd 70591 28. Ebbw 73367 29. Sirhowy Rhymini 76349  
30. Merthyr Aber 74538 31. Cynon Taf 71245 32. Rhondda Trelai 70480

Sylwer, o ran parau etholaethau dau neu tri naill ai cymerir rhifau cyntaf bob un neu cymerir ail rifau bob un. Mae'r gwahaniaethau hyn yn dibynnu ar le mae ward benodol yn mynd. Ym mha etholaeth y dylai fod. Pa un sy'n ei wasanaethau orau?



Tri Deg Dau o Etholaethau i Gymru

MAP TWO



Allwedd i'r Set o Dri Deg Dau o Etholaethau i Gymru

Gogledd Cymru (7)

1. Ynys Môn 52415 2. Eryri 70986/69882 3. Conwy Ddinbych 15184/76288  
4. Prestatyn Rhos 75137 5. Dyfrdwy Alun 72115 6. Wrecsam 72977  
7. Glyndŵr/Rhosilannerchrugog Rhuthun 73887

Canol Cymru (6)

8. Powys 76679 9. Aberystwyth 70192 10. Teifi 72131  
11. Penfros 72898 12. Caerfyrddin Bae 71795 13. Llŵchwr 75586

De Cymru (19)


4. Abertawe - Mwmbyls 76232 15. Abertawe - Tawe 74715  
16. <sup>5</sup> Nedd Tawe - Ychaf Llyw <sup>17.</sup> Afan Llynfi Fach  
Nedd Ystradgynlais Llangyfelech 70516 Afan Maesteg Pŵl 73574  
Alternative A.  
18. Pen-y-bont 70245 19. Tonyrefail Rhws 69739  
Alternative B.  
18. Pen-y-bont 69863 19. Tonyrefail Rhws 70121  
20. Barru Phenarth 70740 21. Caerdydd - Castell 71106 22. Caerdydd - Llundaf 73878  
23. Caerdydd - Llanishen 73507 24. Casnewydd - Gaer Caerdydd - Llanrhymni 74015  
25. Casnewydd - Maendy 76159 26. Wysg 72681  
27. L(l)wyd 70591 28. Ebbw 73367 29. Sirhowy Rhymni 76349  
30. Merthyr Aber 74538 31. Cynon Taf 71245 32. Rhondda Trelai 70480

Sylwer, o ran parau etholaethau dau a thri; a 18 a 19, naill ai cymerir rhifau cyntaf bob un neu cymerir ail rifau bob un. Mae'r amrywiadau o ran yr etholaethau hyn yn dibynnu ar wardiau a pha etholaethau y maent yn mynd iddynt.

Tri Deg Dau o Etholaethau i Gymru

[10710]

MAP THREE



NOT TO SCALE.

Boundaries are Approximate.



Allwedd i'r Set o Dri Deg Dau o Etholaethau i Gymru

Gogledd Cymru (7)

1. Ynys Môn 52415 2. Arfon Conwy Dwyor 74692/76369  
3. Betws-y-n-Rhos 75176/73499 4. Rhyl Ddinbych 70580  
5. Dyfrdwy 72115 6. Wrecsam 72977  
7. Glyndŵr/Rhosilannerchrugog Rhuthun 70887

10 of 10

Canol Cymru (6)


8. Powys 76679 9. Aberystwyth 70192 10. Teifi 72131  
11. Penfros 72898 12. Caerfyrddin Bae 71795 13. Llŵchwr 75586

De Cymru (19)

14. Abertawe-Mwmbwls 76232 15. Abertawe-Tawe 74715  
16. <sup>f</sup>Nedd Tawe-Uchaf Lliw <sup>f</sup>Afan Llynfi Fach  
16. <sup>f</sup>Nedd Ystradgynlais Llangyfelech 70516 17. <sup>f</sup>Afan Maesteg Pŵl 73574  
Alternative A.  
18. Pen-y-bont 70245 19. Tonyrefail Rhws 69739  
Alternative B.  
18. Pen-y-bont 69863 19. Tonyrefail Rhws 70121  
20. Barru Phenarth 70740 21. Caerdydd-Castell 71106 22. Caerdydd-Llandaf  
73878  
23. Caerdydd-Llanishen 73507 24. Casnewydd-Gaer Caerdydd-Llanrhymni 74015  
25. Casnewydd-Maendy 76159 26. Wysg 72681  
27. L(U)wyd 70591 28. Ebbw 73367 29. Sirhowy Rhymni 7634e  
30. Merthyr Aber 74538 31. Cynon Taf 71245 32. Rhondda Treleai 70481

Sylwer, o ran y ddwy ran o etholaethau 2/3 a 18/19 naill ai cymerir rhifau cyntaf bob un neu cymerir ail rifau bob un. Mae'n dibynnu ar ba wardiau sy'n mynd i ble (i ba etholaeth) pa amrywiad sydd gennych ac felly sut mae etholaethau'n cael eu ffurfio.

MAP FOUR



For Constituency Numbers' Key see page (10) →

Allwedd i'r Set o Dri Deg Dau o Etholaethau i Gymru

Gogledd Cymru (7)

1. Ynys Môn 52415 2. Eryri 74954 3. Conwy Tywyn 72870  
4. Rhyl Ddinbych 71903 5. Dyfrdwy Alun 72115 6. Wrecsam 72977  
7. Rhosilannerchrugog Rhuthun/Glyndŵr 75202

Canol Cymru (6)

8. Powys 76679 9. Aberystwyth 70192 10. Teifi 72131  
11. Penfros 72898 12. Caerfyrddin Bae 71795 13. Llŵchwr 75586

De Cymru (19)

14. Abertawe - Mwmbwls 76232 15. Abertawe - Tawe 74715  
16. Nedd Ystradgynlais Llangyfelech 70516 Nedd Tawe - Uchaf Lliw  
17. Afan Maesteg Pŵl 73576 Afan Llynfi Fach  
Alternative A.  
18. Pen-y-bont 70245 19. Tonyrefail Rhws 69739  
Alternative B.  
18. Pen-y-bont 69863 19. Tonyrefail Rhws 70121  
20. Barri Phenarth 70740 21. Caerdydd - Castell 71106  
22. Caerdydd - Llandaf 73878 23. Caerdydd - Llanishen 73507  
24. Casnewydd - Gaer Caerdydd - Llanrhymni 74015  
25. Casnewydd - Maendy 76159 26. Wysg 72681  
27. Llŷwend 70591 28. Ebbw 73367 29. Sirhowy Rhymni 76349  
30. Merthyr Aber 74538 31. Cynon Taf 71245  
32. Rhondda Treleai 70480

Mae gan y pedair set agweddau tebyg a gwahanol. Mae ble mae ward, ym mha etholaeth benodol y mae ynddi, yn bwysig iawn. Mewn ffordd, gallwch ei ystyried ar 2 lefel- y macro a'r micro. Fel y mae'r uchod wedi ei nodi, mae'r macro yn ymdrin â'r ffurfiad cyffredinol ac yn rhoi'r strwythur. Mae'r micro ar lefel ward a'r lle sy'n ei gwasanaethu orau. Mae'n rhaid ystyried y ddau. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i eraill. Mae ystyriaeth i'r sefyllfa yn ei chyfanrwydd yn elfen hanfodol o'r adolygiad hwn.

O ran De Cymru, ceir un set mewn gwirionedd ar y lefel macro. Ceir rhai amrywiadau. Dyma lle mae wardiau penodol-ar y lefel micro. O ran Canol Cymru ceir dau wahanol opsiwn sy'n dibynnu'n fawr ar yr hyn yr ydych yn ei wneud gyda chanolbarth Cymru, a'r ddwy neu dair o etholaethau hyn. Dangosir y gwahanol setiau gan y gwahanol fapiau. Yn y mapiau, mae etholaeth rhif 10 rhwng canolbarth Cymru a de-orllewin Cymru. Mae'n cynnwys y ddau. Mae hyn yn arbennig o wir o ran map un. Mae'r map hwn yn neilltuo Ceredigion a Theifi fel eu hetholaeth. Mae canolbarth Cymru wedi'i gyfansoddi o Geredigion a Phowys, felly yma gellir ei hystyried yn etholaeth canolbarth Cymru. Yn setiau/ mapiau dau, 3, pedwar, Teifi yw etholaeth 10 ac er ei bod yn cynnwys rhannau o'r ddau mae'n etholaeth sy'n fwy cysylltiedig â de-orllewin Cymru. Dyma lle daw mwy o gwmpas a phosibiliadau o ran ei ystyried yn etholaeth Canol Cymru. Mae hefyd yn un o'r pethau dau ar gyfer ystyried Cymru gyfan gyda'i gilydd yn un- gallai cenedlaethol, cenedl gyfan gynnig mwy o hyblygrwydd. Mae angen hyn yn arbennig gyda'r meini prawf presennol y mae'n rhaid i ni weithio'n unol â nhw. Mae gan Ogledd Cymru opsiynau amgen llawn. Dyma'r unig un â gogledd Cymru fel un rhanbarth y gall setiau dau a phedwar (mapiau dau a phedwar) gael eu ffurfio gan fod ganddynt etholaethau sy'n cynnwys y ddwy ardal. Mae set dau (map 2) yn gwahanu'r ardal wyliau arfordirol a'r ardal cefn gwlad ffermio. Mae set pedwar yn eu lled-wahanu/ eu lled-gymysgu. Mae setiau un a thri yn eu cymysgu. Yn nhri ohonynt, un, 3, 4 mae'r etholaethau dwyreiniol yn debyg iawn. Mae'n fater o le'r ydych yn lleoli'r ffiniau ac felly'r (micro) wardiau. Mae dwy etholaeth yno fwy neu lai yr un fath (yr un wardiau). Etholaethau pump a chwech yw'r rhain. Mae'r ddwy yn drefol ddiwydiannol (ôl-ddiwydiannol). Wrecsam yw chwech. Nid yw rhan de-orllewinol ardal Wrecsam wedi'i chynnwys, gan ei bod wedi'i chynnwys yn etholaeth saith. Mae etholaeth pump ar hyd afon Dyfrdwy a'r holl drefi sy'n gysylltiedig â hi. Mae ganddynt ddatblygiad cyffredin dros y diwydiannol. Felly mae'r ddwy etholaeth hyn yn homogenaidd. Fel y nodwyd uchod, ar gyfer gogledd Cymru, pa un a ydych yn ei ystyried yn wahanu neu'n gymysgu'r ardaloedd ceir manteision ac anfanteision ar gyfer pob un. Mae'n bosibl iawn y gallai pa un a ddewisir fod yn seiliedig ar y blaenoriaethau a ffurfir. Pa un sy'n gwasanaethu'r bobl orau? Mae rhai pobl yn gwrthwynebu etholaeth yn mynd o'r ffin â Lloegr i Fôr Iwerddon. Na ellir caniatáu etholaeth sy'n mynd ar draws y wlad. O gymryd golwg agosach ar Ganol Cymru, gellir dweud bod gan dde-orllewin Cymru bedair prif ran/ datblygiad. Llanelli lle cafwyd datblygiad diwydiannol. Caerfyrddin sydd wedi datblygu fel y dref sirol ac sy'n ganolfan weinyddol. Blaen penrhyn y de-orllewin sy'n ffurfio sir Benfro. Afon Teifi sydd wedi datblygu'n Lannau Teifi â'i threfi niferus (dros hanner dwsin) sydd wedi tyfu ar ei hyd. Mae'r rhain yn bedwar canolbwynt ar gyfer

ffurfio etholaethau. Ffurio etholaethau ar gyfer y dyfodol-Cymru fel y mae nawr. O ran canolbarth Cymru, mae'n cynnwys Powys, sy'n gorchuddio tua hanner canolbarth Cymru. Mae'r hanner arall yn cynnwys llawer o Geredigion. Mae cwm Dyfi yn dod â Cheredigion, Meirionnydd a Phowys at ei gilydd. Byddai'r ardal honno yn dda ac yn fwyaf priodol mewn un etholaeth. Ac eithrio Powys, Aberystwyth yw'r prif ganolbwynt arall. Dyma'r dref fwyaf o bell ffordd, canolfan dda a datblygedig â phrifysgol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac ati, mae'n sicr yng nghanolbarth Cymru ac yn cael ei ystyried yn brifddinas canolbarth Cymru. Felly'r etholaethau sydd wedi'u canolbwyntio ar Aberystwyth a Phowys sy'n ymddangos fwyaf addas. Yn sicr yn cyd-fynd fwyaf â chanolbarth Cymru fel y mae nawr, ac yng Nghymru fodern ac ar gyfer y dyfodol. Nid yw rhan orllewinol Powys wedi'i chysylltu'n dda â'r gweddill. Mae rhan ddwyreiniol Powys wedi'i chysylltu'n dda o'r pen i'r gwaelod, yn hygyrch i bawb â chysylltiadau ffyrdd A rhagorol. Ewch i mewn gyda chanolbarth Cymru nawr, a'r drefn weinyddol bresennol, byddai'n rhaid i honno fod yn etholaeth yn seiliedig ar Bowys ac yn etholaeth yn seiliedig ar Aberystwyth. Gyda setiau tri neu bedwar felly. Byddai gwrthwynebiad i etholaeth sy'n croesi holl led Cymru yn diystyru un. Gan gymryd golwg agosach ar Ogledd Cymru, a ydych chi'n mabwysiadu'r dull o wahanu neu gymysgu'r ddwy ardal fawr o gefn gwlad ffermio a gwyliau ar yr arfordir? Os byddwch yn eu gwahanu, mae wir angen i chi gymryd gogledd Cymru yn ei gyfanrwydd- un rhanbarth. Gan fod yr arfordir gwyliau yn rhychwantu'r gogledd-ddwyrain a'r gogledd-orllewin, ac felly hefyd y cefn gwlad ffermio, mae map dau yn gwneud hyn- yn eu gwahanu. Ceir ardal arfordir gwyliau ganolog. Ceir ardal cefn gwlad ffermio canolog yn bennaf hefyd. Mae'r rhain yn ffurfio dwy etholaeth. Mae'r ddwy set arall yn ffurfio gogledd-ddwyrain â phedair etholaeth a gogledd-orllewin â thair etholaeth. Map (a set) tri ar gyfer etholaethau cymysg yn gyffredinol. Tra bod y map (a'r set) ar gyfer Sammy yn eu gwahanu gydag etholaeth sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ran o'r arfordir gwyliau. Byddai llawer yn credu mai dyma'r un a ffeirir. Efallai mai'r blaenoriaethau yw'r ffactor sy'n rheoli'r sefyllfa. Byddai blaenoriaethau â chysylltiadau lleol yn gyntaf, awdurdodau lleol yn ail yn mynd gyda map (a set) tri. Gan fod hyn yn dilyn bwrdeistref Conwy agosaf, ac wrth gwrs mae Ynys Môn hefyd. Gyda'r gogledd-ddwyrain ceir tri awdurdod lleol ond eto 4 etholaeth. Mae etholaeth Wrecsam yn cynnwys cymaint o'r fwrdeistref gan ganolbwyntio a hynny ar y canol. Ceir un canolfan yn ardal drefol sir y Fflint wedi'i lleoli ar afon Dyfrdwy. Mae'r ddwy arall yn gymysg. Gan edrych yn agosach ar dde Cymru, ceir un set yn unig fwy neu lai, sydd ym mhob un o'r pedwar macro-fap. Er bod gwahaniaeth gyda dwy etholaeth- amrywiadau micro o fewn y rhanbarthau, ceir amrywiadau sy'n dibynnu ar ba wardiau sy'n mynd ble. O ran Gogledd Cymru sef opsiwn A.1 (map dau), ceir yr amrywiadau rhwng etholaeth dau (Eryri) ac etholaeth 3 (Conwy Dinbych). Ym mha un o'r rhain y mae Llangennin yn mynd? Ym mha un y mae'n ffitio orau? Mae'n dibynnu ar ba un a ydych yn pwysleisio rhan ogleddol neu ddeheuol y ward. Ond efallai fod y rhan fwyaf o'r ward gyda rhan ogleddol y ward ac felly'n cael ei lleoli gydag etholaeth 3, Conwy Dinbych. Felly Eryri â 69882 a Chonwy Dinbych â 76288. O ran B (map 3) ceir amrywiadau rhwng etholaeth 2 (Arfon Conwy Dwyfor) ac etholaeth 3 (Betws yn Rhos). Ym mha un o'r rhain y rhoddir ward Caerhun? Ble mae'n ffitio orau? A ydych chi'n mynd gyda'i chysylltiad a'i hagosrwydd at Gonwy neu ei rhan o'r dyffryn? Mae'r rhan fwyaf ohoni yn y dyffryn ac felly gydag etholaeth



3 (Betws yn Rhos) mae hyn yn rhoi etholaeth o 75176 ag etholaeth dau (Arfon Conwy Dwyfor) o 746921. O ran De Cymru, ceir amrywiad rhwng etholaeth 18 (Pen-y-bont) ac etholaeth 19 (Tonyrefail Rhws) o 6 ward. Mewn gwirionedd, rhwng y ddau opsiwn nid yw 1 yn disgleirio mwy nag unrhyw un arall. Efallai mai cysylltedd sydd fwyaf arwyddocaol wrth ystyried etholaeth. Gyda hynny a chysylltiadau lleol wrth gwrs, yna opsiwn B fyddai'r un i'w ddewis. Byddai hynny yn rhoi 69863 i 18 Pen-y-bont a 70121 i 19 Tonyrefail Rhws.

Felly, o ran Canol Cymru mai hynny'n rhoi naill ai setiau mapiau 2, tri neu bedwar. O ran Gogledd Cymru mae hynny'n rhoi mapiau tri. Gyda'r amrywiadau yng Ngogledd Cymru, mae Ward Caerhun yn mynd gydag etholaeth tri. Gan roi 74692 i 2 Arfon Conwy Dwyfor a 75176 i 3 Betws yn Rhos. Gyda'r amrywiadau yn Ne Cymru yna mae opsiwn B yn rhoi 69863 i 18 Pen-y-bont a 70121 i 19 Tonyrefail Rhws. Dyma fyddai'r dewis o bob un o'r uchod.

Dangosir y penderfyniad uchod ym map 5 sef map 3 ag opsiwn amgen B ar gyfer De Cymru â Chaerhun gydag etholaeth tri 3 Betws yn Rhos. Dyma fyddai'r dewis, y detholiad o'r cynigion. Dangosir manylion y rhain yn y cyflwyniadau canlynol. Ar gyfer MAP UN, gellir gweld y rhain yn BCW-10247. Ar gyfer MAP DAU, TRI a PHEDWAR, gellir gweld y rhain yn BCW-10513. Mae'r rhain yn dangos manylion yr etholaethau â wardiau, rhifau map bras, enwau, rhesymau ac yn y blaen. Mae'r uchod yn setlo ar un o'r rhain. Dangosir hyn ym MAP PUMP ar dudalen 15. Mae'r rhain yn rhoi'r etholaethau canlynol:

#### Gogledd Cymru (7 etholaeth)

1. Ynys Môn 52415 2. Arfon Conwy Dwyfor 74692 3. Betws-yn-Rhos 75176 <sup>4. Rhyll Ddinbych 10586</sup> 5. Dyffordwy 72115  
6. Wrecsam 72977 7. Glynŵr/Rhosilannerchrugog Rhuthun 70887


#### Canol Cymru (6 etholaeth)

8. Powys 76679 9. Aberystwyth 70192 10. Teifi 72131 11. Penfroes 72898  
12. Caerfyrddin Bae 71795 13. Llŵchwr 75586

#### De Wales (19 etholaeth)


14. Abertawe - Mwmbwls 76232 15. Abertawe - Tawe 74715 16. Nedd Ystradgynlais  
Llangyfelech 70516 17. <sup>5. Afan Llynfi Fach</sup> Afan Maesteg Pîl 73574 18. Pen-y-bont 69863  
19. Tonyrefail Rhws 70121 20. Barru Phenarth 70740 21. Caerdydd - Castell 71106  
22. Caerdydd - Llandaf 73878 23. Caerdydd - Llanishen 73507 24. Casnewydd - Gaer  
Caerdydd - Llanrhymni 74015 25. Casnewydd - Maendy 76159 26. Wysg ~~72681~~  
27. Llŵyd 7051 28. Ebbw 73367 29. Sirhowy Rhymni 76349 30. Merthyr Aber  
74538 31. Cynon Taf 71245 32. Rhondda Treleai 70480

Mae gan Dde Cymru isranbarth. Y Cymoedd yw enw hwn. Mae gan y Cymoedd chwe etholaeth, yr un nifer â Chanol Cymru. Mae'r ffiniau yn fras.



Mae etholaethau'r cymoedd yn dilyn y cymoedd fel y mae bywydau'r bobl sy'n byw yno'n ei wneud. Maent yn mynd i fyny ac i lawr y cymoedd. Mae'r etholaethau yn gwneud hyn hefyd. Maent yn hir ac yn gul fel y mae'r cymoedd. Etholaethau cymoedd yw'r rhain. Mae etholaethau cymoedd yr un siâp â chymoedd. Mae etholaethau cymoedd wedi'i siapiro fel y cymoedd. Nid oes gan etholaethau cymoedd linellau llorweddol. Nid oes ganddynt ffiniau sy'n croesi, sy'n torri, sy'n hollti ac yn rhannu'r cymoedd. Maent yn gwasanaethu'r cwm.

Tri Deg Dau o Etholaethau i Gymru



For Constituency Numbers Key see page (16) →

Allwedd i'r Set o Dri Deg Dau o Etholaethau i Gymru

- (10)  
16 of 16
1. Ynys Môn 52415 2. Anfon Conwy Dwyfor 74692
  3. Betws-yn-Rhos 75176 4. RhyLDdinbych 70580 5. Dyfrdwy 72115
  6. Wrecsam 72977 7. Rhosilannerchrugog Rhuthun/Glyndŵr 70887
  8. Powys 76679 9. Aberystwyth 70192 10. Teifi 72131
  11. Penfroes 72898 12. Caerfyrddin Bae 71795 13. Llŵchwyr 75586
  14. Aberbawe - Mwmbwls 76232 15. Abertawe - Tawe 74715
  16. Nedd Ystradgynlais Llangyfelach 70516 17. Afan Maesteg Pŵl 73574
  18. Pen-y-bont 69863 19. Tonyrefail Rhws 70121 20. Barri Phenarth 70746
  21. Caerdydd - Castell 71106 22. Caerdydd - Llandaf 73878
  23. Caerdydd - Llanishen 73507 24. Casnewydd - Gaer Caerdydd - Llanrhymini 74015
  25. Casnewydd - Maendy 76159 26. Wysg 72681
  27. L(l)wyd 70591 28. Ebbw 73367 29. Sirhowy Rhymni 76349
  30. Merthyr Aber 74538 31. Cynontaf 71245 32. Rhondda Tre lai 70480

I etholaethau fod yn gydlynol, â'r un hunaniaeth, mae'n rhaid bod ganddynt yr un teitl/ enw yn y ddwy iaith. I'r perwyl hwn, ei gael mewn un iaith. Felly, ni ddefnyddir unrhyw gysyllteiriau ac ati (NID OES EU HANGEN MEWN GWIRIONEDD). Yn aml, gellir adnabod yr enw o'r un iaith yn y llall, e.e. Wrecsam, Caerdydd, Rhymni, Mwmbwls, ac ati. Hefyd, defnyddir enwau Cymraeg yn y ddwy iaith bellach e.e. Ynys Môn, Ceredigion, Caerfyrddin, ac ati. Y ffordd a dderbynnir yn rhyngwladol yw cael enw lle fel y mae yn yr ardal leol honno. Mae hyn ar ffurfiau/ ffyrdd llafar ac ysgrifenedig e.e. Mumbai, Beijing, ac ati. Felly, gwneir hyn yng Nghymru. Y Gymraeg, felly, fyddai'r iaith ar gyfer enwau/ teitlau. Gwneir hyn eisoes ar gyfer etholaethau Senedd y DU. Er enghraifft, o'r Alban ceir Na H-Eileanan An Iar; ni ddefnyddir Western Isles gan neb yn unman. Hefyd, mae'r un fath ar gyfer Ynys Môn erbyn hyn. Yr un fath bellach i Gymru ym mhob un etholaeth. Byddai hyn yn cychwyn gyda'r adolygiad hwn, y mae'n bosibl y gallai bara hyd at ddwsin o flynyddoedd cyn cael ei ddisodli gan yr adolygiad nesaf. Hefyd, dylai enwau fod o gymorth ac yn ystyriol o ddefnyddwyr. I fod â phrif ran yr enw yn gyntaf. Fel dinas, sir- enw lle. Mae rhan atodol yr enw yn ail sy'n disgrifio'r rhan gyntaf- yn ei gyfyngu. Mae enwau yn dweud cymaint. Mwy na phwynt cwmpawd- a po fwyaf yr hunaniaeth, po fwyaf y cymeriad. Mae Cymru mor gyfoethog o ran enwau. Byddai hyn ar gyfer pob enw, pa un a ydynt yn ganolfannau poblogaeth fel y'u gelwir, yn awdurdodau lleol neu beth bynnag. Felly, ôl-ddodiad bob amser. Felly byddai etholaethau o un lleoliad yn cael eu rhestru a'u grwpio gyda'i gilydd. Rhoddir rhifau a threfn etholaethau yn y ffordd ddaearyddol. Nid yw hyn yn ffafrio'r un iaith na'r llall fel y mae trefn yr wyddor yn ei wneud. Defnydd y Saesneg ar hyn o bryd- NID Y GYMRAEG! Diolch am gadw fy holl fanylion yn breifat a chyfrinachol. A gaf i ddymuno'n dda iawn i chi, eich teulu a'ch tîm cyfan. Cofion Gorau, Yn Gywir, [REDACTED]





**Comisiwn Ffiniau  
i Gymru**  

---

**Boundary Commission  
for Wales**

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.  
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru  
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan  
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819  
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521  
E-bost: [bcw@ffiniau.cymru](mailto:bcw@ffiniau.cymru)

© Hawlfraint y Goron 2023